

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 24 Ionawr, 2023

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Gwener, 27 Ionawr, 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 3 Chwefror, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 6 Chwefror, 2023.

Presennol: Y Cyngorwyr Llinos Medi (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts,
Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams,
Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Robert
LI Jones, Derek Owen, Dafydd Roberts, Ken
Taylor, Liz Wood.

Ymddiheuriadau: Dim

(10.00 o'r gloch yb - 11.20 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, 2022 yn gywir.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddarau am y cyfnod Chwefror 2023 i Medi 2023.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifennedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad (AGP) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD derbyn a nodi adroddiad AGC ar yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn darparu sicrwydd am berfformiad dyletswyddau statudol a gwelliannau parhaus a moderneiddio'r gwasanaeth i lefel sy'n bodloni'r rheoleiddiwr.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifennedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Cyllideb Refeniw Drafft 2023/24 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2023/24 o £172.438m; • Cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,435.86; •

	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig yn ffurfiol i gynyddu'r premiwm ar ail gartrefi o 50% i 75%; • Bod £1.758m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cydbwysu cyllideb referniw 2023/2024.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn cynnig cyllideb referniw ddrafft gychwnnol ar gyfer 2023/24.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Cyllideb Referniw i'w phenderfynu arni gan y Cyngor Llawn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Adroddiad Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynllun y Cyngor Drafft (2023-2028) Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Bod y broses ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i chynnal mor gynhwysfawr â phosibl yn ystod 2022; • Bod swyddogion mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Gwaith yn datblygu Cynllun y Cyngor drafft ymhellach yn dilyn y broses ymgynghori yn barod i'w fabwysiadu yn ystod gwanwyn 2023.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Fel rhan o'r broses o lunio blaenoriaethau strategol a Chynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Bydd Cynllun y Cyngor a'r blaenoriaethau strategol yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Costau Byw - Cynllun Dewisol (Cam 2) Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu'r cyllid a gytunwyd yn flaenorol o dan gam 1 i ddarparu cymorth gyda chostau tai ar gyfer pobl sydd yn symud o lety dros dro drwy ddarparu grantiau i aelwydydd gydag anghenion tai (prynu a gosod llooriau a charpedi, costau dodrefnu, bwyd a dyledion rhent) lle nad ydynt yn deilwng am gymorth o dan y cynllun Taliad Dewisol at Gostau Tai – gweler paragraff 2.3.4. • Cymeradwyo'r prosiectau cam 2 ychwanegol a nodir yn Atodiad 1, paragraff 4. • Awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol i ddod o hyd i partner lleol / sefydliad(au) addas a all barhau i ddarparu'r cymorth gyda chostau byw drwy'r cynlluniau a sefydlwyd gan y Cyngor tu hwnt i 31 Mawrth 2023, ac awdurdodi trosglwyddo unrhyw arian sydd dros ben i'r sefydliad a nodir, os na ddefnyddir y cyllid i gyd erbyn diwedd Mawrth 2023.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cymeradwyo'r Cynllun Dewisol Cymorth Costau Byw.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifennedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion a nodwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Yn unol â gofynion deddfwriaethol.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifennedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Trefniadau Llywodraethiant - Rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau Portffolio Datblygiad Economaidd a Phrosiectau Mawr a Chyllid, ar gyfer yr holl benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith, a allai fod yn ofynnol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar Ynys Môn (ar gyfer cyfnod y cyllid).
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn datblygu darpariaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn lleol.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifennedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes